

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 4ydd o Ebrill 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Ffestri Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

Yn bresennol y Cyngorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Rhys Tudur, Tegid Jones, Miriam Williams, Darren Morley, Angela Williams, Gareth O. Davies, Euros Jones, Dylan Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** - Cyngorwyr Aled Davies, Aled Lloyd Evans, Margaret Griffith, Delyth Parry, Anwen Jones a Sion Jones.
2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Fawrth 2024.**
3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mawrth 2024.**
4. **Datgan buddiant personol** - neb.

5. **Cynghorydd Sion Aled Jones** wedi anfon ebost at y Clerc yn ei hysbysu ei fod am roi y gorau i fod yn Gynghorydd Ward Llanystumdwy. Bydd yn terfynu ei wasanaeth yn dilyn y cyfarfod mis Mawrth 2024. Mae wedi bod yn Gynghorydd ers mis Medi 2017, a bydd y Clerc yn anfon llythyr ato i ddiolch am ei gyfraniad ar hyd y blynyddoedd.

Bydd angen cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i'w hysbysu, a rhoi rhybudd yn nodi fod sedd wag yn Llanystumdwy. **Derbyn.**

6. **Effaith polisiau ail gartrefi a llety tymor byr - arolwg i holi barn pobl ifanc yr ardal** Derbyniwyd gwybodaeth gan Steffan Smith, Rheolwr Peilot Ail gartrefi a Fforddiadwyedd, Llywodraeth Cymru. Mae cwmnïoedd ymchwil Alma Economics ac OB3 wedi cael ei penodi i werthuso effaith polisiau ail gartrefi a llety tymor byr, ag asesu effaith gwaith y peilot.

Mae'r gwerthusiad yma am redeg tan 2026.

Fel rhan o'r gwaith yma mae'r gwerthuswyr eisiau casglu profiad a barn pobl ifanc - rhwng 18-35 mlwydd oed.

Mae hefyd am siarad gydag asiantaethau/grwpiau hefo cysylltiadau da gyda'r oedran yma, ac angen unrhyw awgrymiadau/cysylltiadau ar gyfer grwpiau o'r fath.

Awgrymwyd i enwebu Clybiau Ffermwyr Ifanc Llanybi a Dyffryn Madog, ac fe wnaeth Cynghorydd Miriam Williams hefyd gytuno i roi ei barn.

7. Chwilio am Gefnogaeth parthed Cynllun Heddlu Ysgolion

Cais gan Cyngor Cymuned Dolbenmaen yn gofyn am gefnogaeth parthed penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi gorau i ariannu'r Cynllun Heddlu Ysgolion. Mae Cyngorwyr Cymuned Dolbenmaen am godi'r mater yma gyda Mabon ap Gwynfor a Liz Saville-Roberts a gofyn wrthynt roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ail ystyried y penderfyniad yma.

Mae'r Cynllun Heddlu Ysgolion yn darparu deilliannau addysgol hynod o bwysig i blant.

Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr atynt hefyd i gefnogi cadw'r cynllun yma.

Materion gan Cyngor Gwynedd

8. Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd Mis Ebrill 2024

Lleoliad Gwaith	Disgrifiad o'r Gwaith
Bryn Gwynt, Afonwen, Chwilog	Draeniad
Cae'r Ferch, Pencaenewydd	Atgyweirio ochr ffordd
Hafan, Chwilog	Atgyweirio gwli/draen
Penarddlygad, Rhoslan	Atgyweirio cwlffert

9. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned

(a) Cais rhif: C24/0208/41/LL - Bodarwen Lôn Goed, Afonwen, Pwllheli,
Estyniad i stablau presennol ac adeiladu 'menagerie' newydd 40m x 20m.
Dim gwrthwynebiad.

(b) Cais rhif: C24/0214/41/LL - Ty'n Ffridd, Afonwen, Pwllheli

Cais ol weithredol i newid defnydd i safle storio a trwshio carafanau ynghyd ag adeiladu ffens a gosod llawr caled.

Gwrthwynebu ar y sail bod gorddatblygiad yn yr ardal yma, a bod tir amaethyddol yn cael ei droi yn dir masnachol yng nghefn gwlad heb ganiatâd.

Yn osgystal a hyn, mae pryder mawr hefo'r fynedfa a bod angen peidio defnyddio'r adwy o flaen y tŷ i symud carafanau, sydd yn mynd i lon hynod o brysur.

Materion yn y gymuned.

10. Llanystumdwy

a) Carnifal - mae trefniadau ar y gweill i gynnal carnifal yn y pentref ar 10.05.2024 a'r bwriad ydi cael gorymdaith o'r ysgol i'r maes parcio. Maent yn bwriadu gofyn am gau'r ffordd am amser o tua hanner awr, ac wedi edrych ar amserlen y bysiau i wneud yn siwr na fyddai hyn yn amharu ar yr orymdaith. Derbyn er gwybodaeth.

b). Amgueddfa David Lloyd George - Cyfarfod Bwrdd Prosiect, Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd ebost gan Nicola Jones, Swyddog Prosiect yn dweud ei bod yn ail ddehongli Amgueddfa David Lloyd George yn Llanystumdwy ac yn awyddus i gael sgwrs hefo partneriaid er mwyn cydweithio er budd ein cymuned. Mae cyfarfod wedi ei drefnu yn Nhafarn Y Plu, Llanystumdwy ar y 22ain o Ebrill am 4:00 y pnawn ac mae croeso i unrhywun ymuno i drafod ei amcanion. Cytunodd y Cynghorwyr Rhys Tudur, Dylan Thomas a Miriam Williams i'w chyfarfod.

c) Mynwent Newydd Llanystumdwy.

Rheoliadau Ailgylchu newydd i fysnesau. Derbyniwyd gwybodaeth fod gytundeb wedi ei wneud hefo Cyngor Gwynedd i symud y bin gwyrdd oddi yno, a bydd bin brown gardd yn cael ei osod yn ei le. Maent wedi archebu arwyddion i fynd ar y bin a'r ddwy giat yn dweud mai gwastraff gwyrdd (gweddillion blodau a phlanhigion) yn unig sydd i'w roi ynddo. Bydd angen iddynt fynd ag unrhyw sbwriel arall oddi yno. Gobeithir y bydd pawb yn cydymffurfio, ac efallai y gall y Cynghorwyr ledaenu'r wybodaeth yma. Derbyn er gwybodaeth gan obeithio bydd y cyhoedd yn cydymffurfio â'r rheolau newydd.

11. Rhoslan/Ynys

12. Chwilog/Llanarmon

a. Llwybr o dan bont Afonwen am y traeth - Hafan y Môr - derbyniwyd gwybodaeth pellach gan Rhys Roberts, Swyddog Llwybr Arfordir Rhanbarth Gwynedd yn dweud bydd y llwybr dros dro ar gael eto rwan. Dywedodd fod Hafan y Môr yn dweud y byddant wedi cwblhau y gwaith o ran y llwybr cyhoeddus gwreiddiol erbyn yr 17.05.2024. Felly, bydd y llwybr yn symud yn ôl i'w leoliad gwreiddiol yn dilyn y dyddiad yma.

b. Maes parcio Hafan y Môr.

Mae sawl siale yn y maes parcio sydd ar draws y lon i Hafan y Môr ers tro, a dim son am gais cynllunio yma. Y Clerc i wneud ymholiadau, ac roedd y Cynghorydd Rhys Tudur wedi cael gwybod mai dros yr oeddent am fod yno.

13. Pencaenewydd/Sardis

14. Llangybi

15. Materion Ariannol

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol rhwng 01.04.2023 hyd at 31.03.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Bydd y Clerc yn creu dogfen rhagolwg newydd ar gyfer y flwyddyn tan 31.03.2025, erbyn y cyfarfod nesaf.

16. Taliadau BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Delwedd ***008	Cynhaliaeth gwefan	<u>445.09</u>	<u>89.02</u>	<u>534.11</u>	<u>534.11</u>

Cyflog mis Mawrth 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol Clerc, Mawrth 2024 35 awr y mis x £16.67 = £583.45	583.45 116.80 -llai treth <u>£466.65</u>	<u>466.65</u>	<u>466.65</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar gyflog y Clerc Mawrth 2024	584.00 x 20% = <u>£116.80</u>	<u>116.80</u>	<u>116.80</u>
Costau swyddfa'r Clerc Mawrth 2024	<u>£26.00</u>	<u>26.00</u>	<u>26.00</u>

17. Materion hwyr – cytunwyd i dalu anfoneb Delwedd yn dilyn y cyfarfod - gweler rhestr taliadau uchod (***)

Bydd y cyfarfod nesaf, a'r Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ar nos Iau **09.05.2024** yn Neuadd Llanystumdwy, ac yn rhithiol.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.